Swansea University
Prifysgol Abertawe

**Disgrifiad Swydd: Cynorthwy-ydd Ymchwil**

| | |
|---|---|
| **Cyfadran:** | Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe |
| **Adran/Pwnc:** | Yr Ysgol Feddygaeth |
| **Cyflog:** | Gradd 07 £34,132 i £38,249 y flwyddyn ynghyd â buddion pensiwn USS |
| **Oriau gwaith:** | 35 awr yr wythnos |
| **Nifer y swyddi:** | 1 |
| **Contract:** | Swydd am gyfnod penodol yw hon, tan ddiwedd mis Rhagfyr 2026 |
| **Lleoliad:** | Bydd deiliad y swydd hon yn gweithio ar Gampws Parc Singleton |

| | |
|---|---|
| **Prif Ddyletswyddau** | 1. Cyfrannu at brosiectau ymchwil yn nhîm porth data DPUK, gan gynnwys:<br>• Cyfrannu at gynllunio a rheoli fel tîm<br>• Dylunio ymchwil<br>• Paratoi data<br>• Dadansoddi ystadegol<br>• Ysgrifennu canlyniadau i'w cyhoeddi<br>2. Cyfrannu at weithgareddau cefnogi DPUK, gan gynnwys darparu data i brosiectau, adolygu allbynnau prosiect, ymateb i ymholiadau ymchwilwyr am DPUK, a helpu ymchwilwyr i ddatblygu syniadau am brosiectau.<br>3. Beth am weithio gyda thîm DPUK i ddatblygu a phrofi amrywiaeth o ddulliau LLM gan ddefnyddio data a metadata yn y porth data a chymharu dulliau ac archwilio cyfleoedd/heriau mewn ymagweddau gwahanol.<br>4. Cynorthwyo wrth ddatblygu rhyngwyneb defnyddiwr i ddefnyddwyr ymholi ar draws data/metadata DPUK a gweithio ar brosiectau canfod PII.<br>5. Cyfrannu at ddatblygu offer meddalwedd a dulliau newydd ar gyfer gweithio gyda data. |
| **Dyletswyddau cyffredinol** | 1. Cyfrannu'n rhagweithiol at ymchwil a chynnal ymchwil, gan gynnwys casglu, paratoi a dadansoddi data, meddwl am syniadau newydd a chyflwyno canlyniadau.<br>2. Paratoi adroddiadau, drafftio patentau a phapurau sy'n disgrifio canlyniadau'r ymchwil, boed yn gyfrinachol neu i'w cyhoeddi.<br>3. Dangos hunangymhelliant a defnyddio menter bersonol er mwyn dod o hyd i ffyrdd addas o fynd i'r afael â heriau, a gofyn am arweiniad yn ôl yr angen.<br>4. Rhyngweithio'n gadarnhaol ac yn broffesiynol â chydweithredwyr a phartneriaid eraill yn y Gyfadran ac mewn mannau eraill yn y Brifysgol a'r tu hwnt fel y bo'n briodol, megis ym maes diwydiant/masnach, mewn sefydliadau cyhoeddus, ysbytai ac yn y byd academaidd.<br>5. Cyfrannu at faterion trefniadol y Gyfadran i'w helpu i weithredu'n hwylus a helpu i godi ei phroffil ymchwil allanol.<br>6. Bod yn ymwybodol o ddatblygiadau yn y maes o safbwynt technegol, penodol a chyffredinol, a'u goblygiadau ehangach ar gyfer maes y ddisgyblaeth, cymwysiadau masnachol a'r economi wybodaeth.<br>7. Bod yn gynrychiolydd neu'n aelod o bwyllgorau pan fo angen gan ddefnyddio'r cyfle i ehangu eich profiad proffesiynol.<br>8. Dangos tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol personol, gan nodi anghenion datblygu drwy gyfeirio at Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr Vitae, yn enwedig o ran y cyfnod prawf, adolygiadau datblygiad proffesiynol a chymryd rhan mewn digwyddiadau hyfforddiant.<br>9. Cynnal a gwella cysylltiadau â'r sefydliadau proffesiynol a chyrff perthynol eraill.<br>10. Ufuddhau i brotocolau arfer gorau wrth gynnal a chadw cofnodion ymchwil, fel y'i nodir gan ganllawiau rheoli cofnodion Sefydliadau Addysg Uwch a'r Cynghorau Ymchwil. Mae hyn yn cynnwys gwneud yn siŵr bod cofnodion llyfrau log prosiectau yn cael eu cyflwyno i'r Brifysgol/Prif Ymchwilydd ar ôl gorffen y gwaith.<br>11. Cyfrannu'n llawn at bolisïau Galluogi Perfformiad ac Iaith Gymraeg y Brifysgol. |

| | |
|---|---|
| | 12. Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn arferion gwaith a chynnal perthnasoedd gweithio cadarnhaol.<br>13. Cyflawni rôl a holl weithgareddau'r swydd yn unol â systemau rheoli a pholisïau diogelwch, iechyd a chynaliadwyedd, er mwyn lleihau'r risgiau a'r effeithiau sy'n deillio o weithgarwch y swydd.<br>14. Sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o unrhyw broses benderfynu, drwy sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi Rheoli Risg y Brifysgol.<br>15. Unrhyw ddyletswyddau eraill y mae'r Gyfadran/Gyfarwyddiaeth/ Maes Gwasanaeth wedi cytuno arnynt. |
| **Manyleb Person** | **Meini Prawf Hanfodol:**<br><br>1. Gradd neu brofiad cyfwerth mewn disgyblaeth berthnasol.<br>2. Tystiolaeth o'r gallu i gymryd rhan weithredol mewn ysgrifennu a chyhoeddi papurau ymchwil, yn arbennig ar gyfer cyfnodolion a adolygir a chyfrannu atynt.<br>3. Gallu amlwg i gynnal ymchwil yn unol ag amcanion y prosiect.<br>4. Tystiolaeth o sgiliau cynllunio i gyfrannu at y prosiect ymchwil.<br>5. Profiad sylfaenol o ysgrifennu côd neu gyfrannu at ddatblygu meddalwedd mewn iaith raglennu uwch.<br>6. Profiad sylfaenol o weithio gyda setiau mawr o ddata.<br>7. Ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus<br>8. Gwybodaeth ardderchog am fodelau Iaith Fawr<br>9. Ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus<br><br>**Meini Prawf Dymunol**<br><br>10. Profiad o weithio yn ôl methodolegau datblygu meddalwedd, yn enwedig methodolegau ystwyth.<br>11. Yn gyfarwydd i ryw raddau ag ymchwil epidemiolegol a dadansoddi ystadegol<br>12. Profiad o raglennu yn SQL, R, a / neu Python.<br>13. Profiad o ddatblygu dulliau Model Iaith Mawr |
| **Lefel Iaith Gymraeg** | Level 1 – 'a little' - pronounce Welsh words. Able to answer the phone in Welsh (good morning / afternoon). Able to use very basic every-day words and phrases (thank you, please etc.). Level 1 can be reached by completing a one-hour training course.<br><br>Am ragor o wybodaeth am Lefelau'r Iaith Gymraeg, gweler tudalen we'r Asesiad o Sgiliau Iaith Gymraeg, sydd ar gael yma. |
| **Gwybodaeth Ychwanegol** | Ymholiadau anffurfiol: Emma Squires – emma@chi.abertawe.ac.uk |